## Newyddion o'r De

## Mae dosbarthiadau Cymraeg yn cael eu cynnal yn Comodoro Rivadavia ers tair blynedd. Pwy sy'n dysgu Cymraeg? Dyma nhw:

## Y Dosbarth Cyntaf

Sofia ydw i. Dw i'n byw yn Comodoro. Dw i'n hoffi bara, sglodion, sudd oren a pizza.
**Sofia Roberts**

Zaki ydw i. Dw i'n byw yn Comodoro. Dw i'n hoffi ffrwythau, llaeth, caws a bara menyn.
**Zaki Seba**

Nadia Gianina Jones ydw i. Dw i'n byw yn stryd Reynaldo Bruno 465 yn Ardal Standart Sur yn Comodoro Rivadavia yn Camwy yn Ariannin. Dw i'n hoffi hufen iâ a dw i'n hoffi gwrando miwsig.
**Nadia Jones**

Noel ydw i. Dw i'n byw yn stryd Francisco Behr 73 yn ardal Pueyrredon. Dw i'n hoffi bwyta sudd oren, sglodion, cig a hufen iâ. Dw i'n hoffi darllen a sgrifennu.
**Maria Noel Hernandez**

Daniela dw i. Dw i'n dysgu Cymraeg. Dw i'n byw yn Comodoro a dw i wedi byw yn Tir y Tân. Dw i'n hoffi nofio, darllen, sgrifennu a siarad Eidaleg, weithiau canu yn y tŷ a gwrnado ar gerddoriaeth.

Yn y tŷ mae un ci a dwy gath, hefyd coed ffrwythau. Mae fy nhad yn hoffi gwneud barbeciw. Mae mam yn hoffi gwneud dillad a mwynhau darllen llyfrau.
**Daniela Agüero**

## Yr Ail Ddosbarth

Mabel ydw i. Dw i'n athrawes. Dw i'n dod yn wreiddiol o Comodoro Rivadavia a dw i'n byw yma nawr. Dwy'n hoffi bwyta cig oen, cyw iâr, salad, tatws, ffrwythau a tarten. Dw i'n hoffi darllen popeth, mynd am dro ar lan y môr, coginio tarten, sgrifennu Cymraeg a Groeg a gwrnado miwsig. Mae gŵr efo fi o'r enw Carlos. Mae pedwar brawd efo fi: Hector, Nelson, Oscar a Hugo ac un chwaer, Iris. Does dim plant efo fi.
**Mabel Kollenberger**

Javier ydw i. Dw i'n byw yn Comodoro Rivadavia ond yn dod o Trelew. Dw i'n byw efo'r teulu, mam Maria, dwy chwaer a dau frawd, Mario a Guillermo. Dw i'n hoffi bwyta bara hefo jam ac asado.
**Javier Brunt Patterson**

Ofeila dw i. Dw i’n dod o Periw yn wreiddiol ond dw i’n byw nawr yn ardal Sn Isidro. 1129 yn Comodoro.

Dw i’n hoffi bwyta cig eidion, llawer o ffrwythau, pysgod, octopws, tatws. Dw i’n hoffi coginio, darllen, cysgu hanner dydd Sul, rhedeg, cerdded a gwnio.

Dw i’n byw gyda fy ngŵr Hector, mab Claudio, merch-yng-nghyfraith Antonieta ac ŵyr César Antonio.
**Ofeila de Sobrales**

Luis ydw i. Dw i’n byw yn Km 3 yn Comodoro Rivadavia ond dw i’n dod o Tucuman yn wreiddiol. Dw i’n astudio electroneg a pheirianneg yn y brifysgol. Dw i’n hoffi pysgota, nofio, gyrru car, gwrando cerddoriaeth, rhedeg a mynd ar gefn beic.

Dw i’n hoffi bwyta cig oen, pwdin reis, milanesa, pasta, pizza, sglodion, ffrwythau, bwyd y môr a teisen.

Mae mam Narlú efo fi a mae dad Luis Santiago efo fi. Mae chwaer Wanda efo fi a mae cath Poposito efo fi.
**Luis Chavarria Owen**

Mariana ydw i. Dw i’n dod yn wreiddiol o Comodoro Rivadavia yn yr Ariannin. Dw i’n hoffi bwyta asado, tatws, siocled, hufen iâ, teisen ffrwythau a sglodion. Dwy’n hoffi garddio, cysgu, darllen, cerdded, dawnsio a dysgu.

Mae tad efo fi, Victor a mam, Lydia. Mae pedair chwaer yn hŷn na fi: Fabiana, Gabriela, Jessica a Vanesa efo fi. Mae ci, Tommy efo fi.
**Mariana Chaile**

Barbara ydw i. Dw i’n byw yn Comodoro Rivadavia ac yn dod o Comodoro Rivadavia hefyd. Dw i’n byw efo’r teulu – mam Martha, dad Ramón a dwy chwaer Verónica a Tatina (yn ifancach na fi). Mae gen i gi Pinti.

Dw i’n hoffi coginio, mynd i’r côr, mynd am dro ar lan y môr hefo’r cariad, darllen llyfrau, ysgrifennu, gwylio’r teledu a gwrando miwsig.
**Barbara Garcia**

Nilda ydw i. Dw i’n wreiddiol o Drelew ac yn byw yn Comodoro. Dwy’n hoffi bwyta cig eidion, tatws, cig oen a phob ffrwythau. Fy nheulu i ydy’r gŵr, Mario, mab, Gustavo, ŵyr Ariel, chwaer Elizabeth Ellen a dau frawd Evan John a Roberto. Dw i’n hoffi darllen, gweithio yn yr ardd, coginio a canu yn y dosbarth Cymraeg.
**Nilda Roberts de Strobel**

Ana Maria ydw i. Dw i’n dod yn wreiddiol o Facundo. Dwy’n hoffi bwyta pastas, tarten, pysgod a teisen. Dwy’n hoffi darllen, gwrando miwsig, mynd i’r sinema ac i’r côr. Mae gen i frawd. Enw fy mrawd yw Ricardo. Mae gen i gathod o’r enw Amin, Typiy, Idi, Chung yon, Mogen du, Hitler, Sacha Distel a Farah.

**Ana Maria Alvarez**

Jose ydw i. Dw i'n 29 oed. Dw i'n dod o Gaiman. Enw'r stryd ydy Sarmiento. Dw i'n dysgu Cymraeg yn Coleg Camwy efo Siôn Davies a Menna George.

Dw i'n hoffi coginio, gwrando miwsig, gwylio'r teledu, mynd am dro ac edrych ar y môr. Dw i'n hoffi bwyta sglodion efo milanesa napolitana, pysgod efo tatws, tarten, cacenni bach, ffrwythau, tallarine, ac yfed cwrw.

Mae gen i bump brawd a dwy chwaer. Mae fy mam yn 63 oed. Enw hi ydy Josefa. Dydy nhad Angel ddim yn byw efo ni.
**Jose Romero**

Grisel ydw i. Dw i'n gweithio yn y tŷ ac yn y ffatri hufen iâ. Dw i'n dod o Comodoro Rivadavia yn wreiddiol. Dw i'n byw yn Comodoro nawr hefyd.

Dw i'n hoffi bwyta llysiau, ffrwythau, cyw iâr, pysgodyn, pwdin reis a teisen afal, lemwn a hufen. Dw i'n hoffi darllen, gwrando miwsig, garddio, mynd am dro hefo'r ci, cerdded ac yfed mate yn yr ardd.

Mae rhieni hefo fi, Edwardo a Naiad Wyll. Mae gŵr Victor Hugo hefo fi ac mae plant – tri hogyn ac un ferch, Victor Hugo, Eduardo, Federico a Paula. Mae ci hefo fi, Mica.
**Griselda Agesta de Dominguez**

## Y Trydydd Dosbarth

Gwen ydw i. Dw i'n dod yn wreiddiol o Sarmiento. Dw i'n byw rwan yn Comodoro Rivadavia, Stryd Colones Galeses. Dw i'n byw efo'r gŵr Eilyw. Athrawes ydw i.

Mae dwy ferch efo fi, Myrna a Doris (mae Myrna yn hŷn na Doris) a dau fab-yng-nghyfraith, Beto a Daniel a phump o wyrion.

Dw i'n hoffi bwyta pob peth, yn enwedig cig wedi rhostio efo salad, ffrwythau a yfed dŵr.

Dw i'n gallu darlunio, gwneud teisen a yoga. Dw i'n trio dysgu Cymraeg hefyd.
**Gwen Jones de Pritchard**

Irvonwy Davies ydw i, ond Nanny mae pawb yn ngalw i achos mae o'n hawsach. Ces i fy ngeni yn Gaiman yn y Wladfa, ond dwy'n byw yn Comodoro Rivadavia yn nhalaith Chubut ym Mhatagonia. Athrawes ydw i ond dw i wedi ymddeol ers 14 o flynyddoedd.

Dw i'n siarad Cymraeg er pan o'n i yn ifanc ond doedd dim llawer o gyfle i bracteisio yr iaith fan yma. Ychydig o Gymry oeddem ni yma, felly wnaethon ni hel at ein gilydd i ddysgu tipyn mwy a siarad. Dan ni wrthi'n gweithio ers tair blynedd. Dan ni wedi cael andros o help yn awr efo'r athrawes Megan Bevan sydd wedi bod efo ni yma am

ddau fis yn gwneud i ni weithio yn galed. Diolch yn fawr iddi hi achos heblaw athrawes dan ni wedi nabod boneddiges ac wedi ennill cyfaill o galon.
**Nanny Davies de Freyre**

Liliana ydw i. Yn wreiddiol dw i'n dod o Esquel, gogledd talaith Chubut yn Ne Ariannin. Mae Ariannin yn ne America ac mae yn wlad fawr iawn.

Ers 28 o flynyddoedd dw i'n byw yn Comodoro Rivadavia, dinas sy gyferbyn a'r môr ac ers yr un faint o flynyddoedd dw i'n gweithio mewn cwmni olew. Dw i'n teithio dwy awr pob dydd i'r swyddfa ac mae llawer o waith i'w wneud.

Mae gŵr Jorge efo fi. Priodon ni yn 1975 felly llynedd ym mis Chwefror gwnaethon ni ddathlu ein priodas arian.

Mae dwy ferch efo ni – Lorena yn 24 mlwydd oed sydd yn fyfyrwraig pensaerniaeth yn y brifysgol yn Buenos Aires a Carolina sy'n 23 blwydd oed. Mae hi yn byw efo ni gan mai merch arbennig ydy hi.

Mae fy mam yn byw yn Esquel a fy mrawd hefyd. Does dim tad hefo fi; mae o wedi marw ers blynyddoedd. Mae gen i un nai yn 9 mlwydd oed sydd yn byw yn El Bolson.

Dw i'n hoffi teithio ond dwy ddim yn hoffi hedfan mewn awyren. Dwy'n adnabod llawer o wledydd a dwy'n edrych ymlaen at adnabod llawer mwy.

Dw i wedi cael y cyfle i fynd i Gymru am fis i ddysgu'r iaith yn y brifysgol yn Llanbed ac mae wedi bod yn brofiad bythgofiadwy. Yma yn Comodoro mae Gwilym Roberts wedi helpu am wythnos y llynedd, ac unwaith y mis mae Siôn yn dod o'r Gaiman a hefyd athrawesau o Gymru.

Ar hyn o bryd dwy'n dysgu Cymraeg efo Megan a dwy'n hapus mod i'n gwella o ddydd i ddydd.
**Liliana Freeman de Moreno**

**<u>Chwedl y Palo Borracho</u>**
Yn nhiroedd poeth gogledd yr Ariannin, ger rhaeadr Iguazu, treuliai Naipá, merch y pennaeth Caimaré, ei bywyd. Yn amddifad o'i mam, cafodd ei magu gan ferched tylwyth y brodor.

Treuliodd ei hamser yn byw bywyd naturiol gan ddysgu iaith y blodau a'r adar a swyn yr afonydd. Un diwrnod pan oedd yn rhodio'r goedwig, daeth i adnabod llanc golygus. Cwympodd ef mewn cariad â hi ac yn fuan cysylltwyd bywydau'r ddau. Ond roedd ieuenctid y tylwyth wedi troi'n ddig at yr estron gan feddwl mai ef fyddai'n bennaeth, ac fe'i lladdwyd. Aeth Naipu i'r goedwig gan grio a chrio ei dirfawr boen, ac ni ddaeth byth yn ôl. Trowyd ei chorff yn goeden ddrain ond roedd ei chopa yn llawn o flodau hardd. *Palo borracho* yw'r goeden ac mae'r drain yn golygu poen Naipu a'r blodau ei chariad.
**Eilyw Pritchard**

**Nodyn i gloi**

Mae dysgwyr a siaradwyr Cymraeg Comodoro Rivadavia yn ddiolchgar iawn i Siôn (Juan) Davies o'r Gaiman am ei gymorth mawr i ni, ac hefyd i nifer o athrawon o Gymru, gan gynnwys Gwilym Roberts, am gofio amdanom ni.

Rydym yn cynnal y dosbarthiadau Cymraeg bob bore dydd Sadwrn yng Nghanolfan Leonardo de Vinci. Os ydych yn gwybod am rywun sy eisiau dysgu Cymraeg ffoniwch Eilyw ar 4467106.

**Eilyw Pritchard,**
**Trefnydd Cyrsiau Cymraeg Comodoro**

**Ydy'n bwysig fod myfyrwyr Llanbed yn helpu'r bywyd Cymraeg ar ôl dod adref i Batagonia?**

Dw i'n meddwl bod ar y diwylliant Cymraeg angen cefnogaeth cyn-fyfyrwyr Llanbedr. Gallen nhw helpu mewn gwahanol ffyrdd e.e. helpu athrawon Cymraeg gyda dechreuwyr neu yn yr Eisteddfodau, neu gydag ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg ac ati. Mae'r iaith Gymraeg yn fyw yma achos bod llawer o bobl wedi gweithio ac yn dal i weithio nawr er mwyn hynny.

**Ana Pinciroli, Gaiman**

**Y Prifardd Selwyn Gruffydd**

Mae'r bardd Selwyn Gruffydd wedi ymddangos eto yn y Dyffryn ar ddechrau mis Chwefror.

Bu Selwyn yn brysur iawn ar ddiwedd tymor yr Ysgol Gymraeg yn adrodd mewn nosweithiau llawen ar hyd a lled Dyffryn Camwy. Roedd o'n cynnig ei sgiliau fel beirniad i'r Pwyllgor Eisteddfod, ond doedd neb yn siŵr ble i'w ffindio fo.

Ar y cyntaf o Chwefror, pan oeddan nhw yn canu mewn tŷ te, cafodd aelodau Côr Gaiman y fraint o weld y prifardd ymysg y twristiaid.

Y tro yma nid adrodd oedd y dyn ond mwynhau te a miwsig y Gaiman. Beth bynnag, gadawodd ei gerdyn ac addawodd i ddod yn ôl i Eisteddfod y Wladfa ym mis Hydref.

Os oes yna rai sy'n dal yn amau amdano fo, dyma Adlais yn cyhoeddi copi o'i gerdyn personol. Tan fis Hydref!

**Aelod o'r côr!**